

**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU****LEGISLATION COMMITTEE
REPORT****Rheoliadau Ombwdsmon Tai Cymdeithasol (Cymru) 2005**

Diben y Rheoliadau yma yw gwneud darpariaeth ynglyn ag ymchwiliadau gan Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru ("OTCC") i gwynion sydd wedi'u gwneud yn erbyn landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru fel y maen nhw wedi'u diffinio yn adran 51C(1) o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"). Mae'r Rheoliadau yma'n cael eu gwneud o dan adran 51B (Ymchwilio i gwynion) o Ddeddf 1996 a gafodd ei mewnosod yn Neddf 1996 gan adran 228 o Ddeddf Tai 2004.

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 2, mae testun Saesneg y diffiniad o "relevant service" yn cyfeirio at wasanaethau "which it is the social landlord's function to provide", ond mae'r diffiniad Cymraeg cyfatebol o "gwasanaeth perthnasol" yn cyfeirio at wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y landlord cymdeithasol. Os yw'n arwyddocaol bod y testun Saesneg yn defnyddio "function", dylai hynny gael ei adlewyrchu yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn yr un rheoliad, mae testun Saesneg y diffiniad o "social landlord" yn cyfeirio at adran 51C(1) o Ddeddf 1996, ond mae rhif yr adran yn eisiau yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae rheoliad 4(3)(a) eto yn dangos yr anhawster sy'n cael ei achosi yn sgil defnyddio "may" yn y testun Saesneg. Yn yr achos yma, mae "SHOW may not investigate" wedi'i fynegi yn y testun Cymraeg fel "ni fydd OTCC fel arfer yn ymchwilio". Dewis arall, a fyddai'n gywir, yw "ni chaiff OTCC ymchwilio". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Ym mrawddeg gyntaf rheoliad 7(1), mae'r testun Saesneg yn darllen "If SHOW decides to investigate". Mae'r testun Cymraeg yn darllen "Os bydd OTCC yn ymchwilio" ac felly mae'r elfen "decides to" yn eisiau. Dylai'r ddau destun fod yn gyson â'i gilydd. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Ar ddiwedd testun Saesneg paragraff rhagarweiniol rheoliad 8(2), gwelir y canlynol: "(or such longer period as SHOW may in writing permit)". Y testun Cymraeg cyfatebol yw "(neu unrhyw gyfnod hwy y caiff OTCC ei bennu'n ysgrifenedig)". Dylai'r ddau destun fod yn gyson â'i gilydd. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 11(2) mae dau ymadrodd i'w gweld sy'n cyfleu'r un effaith – "os yw OTCC o'r farn" ac "os bydd OTCC yn barnu". Byddai'r naill neu'r llall o'r ddau ymadrodd yn ddigon. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Man wallau yw'r rhain i gyd a bernir eu bod yn gallu cael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Llwyddodd y Cynghorwyr Cyfreithiol i dynnu sylw'r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau at nifer fach o bwyntiau ynglyn â fformadu a'r Nodyn Esboniadol y byddai'n addas eu cywiro wrth i'r Rheoliadau gael eu cyhoeddi.

Y bwriad yw i'r Rheoliadau yma gael eu gwneud ar 5 Gorffennaf 2005, gan ddod i rym ar 15 Gorffennaf. Fel yr esboniwyd uchod, mae'r pwr galluogi wedi'i gynnwys yn adran 228 o Ddeddf Tai 2004, nad yw mewn grym eto. Mae wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2005, sydd hefyd i fod i gael ei wneud ar 5 Gorffennaf a bydd adran 228 yn cael ei chychwyn ar 14 Gorffennaf. Felly, fydd y pwr galluogi ddim wedi'i gychwyn pan gaiff y Rheoliadau yma eu gwneud. Serch hynny, fe fydd mewn grym erbyn i'r Rheoliadau yma ddod i rym, a bydd hynny'n ddigonol yn rhinwedd adran 13 o Ddeddf Ddehongli 1978, sy'n caniatáu i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud cyn i'r pwr galluogi gael ei gychwyn ar yr amod y bydd y pwr wedi'i gychwyn erbyn i'r is-ddeddfwriaeth ddod i rym.

Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

28 Mehefin 2005